# YMWELIAD SAFLE CYNLLUNIO

## Adroddiad ar y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mai 2012

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd W. T. Hughes (Is-Gadeirydd)(yn y Gadair)<br><br>Y Cynghorwyr E. G. Davies, Lewis Davies, Jim Evans, K. P. Hughes, T. H. Jones, C. McGregor, R. L. Owen, Eric Roberts, Hefin Thomas<br><br>**Aelod Lleol**: Y Cynghorydd D. R. Hughes. |
| **WRTH LAW**: | Rheolwr Rheoli Datblygu (DFJ)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr J. Arwel Roberts, J. Penri Williams. |

---

**1 40C204G – Codi uned wyliau newydd ym Mryn Awelon, Llanallgo**

Yn ei gyfarfod ar 2 Mai 2012, penderfynodd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ymweld â'r safle yn unol â chais yr Aelod Lleol er mwyn asesu lleoliad y safle o ran pentref cyfagos Moelfre.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio bod y safle yn cynnwys y brif annedd (sy'n cael ei redeg ar wahân fel busnes Gwely a Brecwast), uned wyliau ar wahân a charafán statig sydd wedi ei lleoli mewn tiroedd mawr. Mae'r cais yn un i godi uned wyliau newydd o fewn tiroedd y safle lle mae'r garafán statig wedi ei lleoli ar hyn o bryd. Dangosodd y Swyddog i'r Aelodau gopi o'r cynlluniau ac eglurodd bod y cynnig yn ymwneud â symud y garafán statig a chodi yn ei lle, adeilad hirsgwar unllawr pwrpasol yn cynnwys cegin/ystafell bwyta, lolfa, ystafell ymolchi a dwy lofft. Byddai dyluniad yr uned yn un o garreg draddodiadol gyda tho llechi i gydweddu gyda'r uned wyliau sydd ar y safle ar hyn o bryd a byddai'n is nag uchder brig to'r uned wyliau sydd yn union gerllaw. Cadarnhaodd y Swyddog er nad oes unrhyw broblemau'n codi o bersbectif dyluniad, bod problemau o ran ystyriaethau polisi.

Dywedodd yr Aelod Lleol wrth Aelodau'r Pwyllgor y byddai llinell adeiladu arfaethedig yr uned newydd yn cael ei lleoli yn union yr un lle â safle'r garafán statig gan redeg ochr yn ochr â'r uned wyliau cyfredol. Dywedodd ei bod hi'n bwysig i Aelodau'r Pwyllgor edrych ar safle'r cynnig oherwydd ei fod wedi ei leoli mewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol a dywedodd na fyddai'r uned newydd arfaethedig yn weladwy mewn unrhyw ffordd o'r lôn. O ran lleoliad y safle mewn perthynas â'r pentref, dywedodd bod modd cael at y pentref ar hyd y ffordd sy'n arwain oddi ar y gylchfan sydd hefyd â phafin i gerddwyr ar y naill ochr a'r llall.

**Y CYNGHORYDD W. T. HUGHES**
**IS-GADEIRYDD**